

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Epost / email: clerc.llansantffraed@btinternet.com
Tel: 01545 570323

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, y 2il o Awst 2016 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 2nd August 2016 at the Reading Room, Llanon.

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cyngorydd L Lloyd
Y Cyngorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, D Morgan, B Tomlins ac I Reed.
Y Cyngorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor L Lloyd
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, D Morgan, B Tomlins and I Reed.
County Councillor Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

- | | |
|--|---|
| <p>41 Ymddiheuriad
Ymddiheurodd y Cyngorydd Gerallt Lewis am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.</p> <p>42 Materion Personol
Estynnwyd llongyfyrchiadau'r Cyngor i'r Cyngorydd Bryan Tomlins a'i wraig a oedd yn dathlu eu penblwydd priodas 58 mlynedd.</p> <p>43 Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Orffennaf 2016
Cadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Orffennaf 2016 fel rhai cywir.</p> <p>44 Materion yn codi o'r Cofnodion.</p> <p>44.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg
Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau parthed perchnogaeth y tir lle safai y gwreiddyn.</p> <p>44.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae NODWYD bod angen taenu'r 'scalpings' o hyd.</p> <p>44.3 Arwyddion PENDERFYNWYD archebu'r canlynol gan Rebus Signs:</p> | <p>41 Apology
Councillor Gerallt Lewis apologised for his inability to attend the meeting.</p> <p>42 Personal Matters
The Council's congratulations were extended to Councillor Bryan Tomlins and his wife on celebrating their 58th wedding anniversary.</p> <p>43 Minutes of the Meeting held on 5th July 2016
The Minutes of the Meeting of the Council held on 5th July 2016 were confirmed as being a correct record.</p> <p>44 Matters arising from the Minutes.</p> <p>44.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg
The Clerk was requested to investigate the ownership of the land on which the stump was located.</p> <p>44.2 Track leading to the Playing Field
It was NOTED that the scalpings remained to be spread.</p> <p>44.3 Signs
The Clerk advised that the following had been ordered and that their delivery was</p> |
|--|---|

6 arwydd 'Dim Cŵn'
1 arwydd i'r stordŷ
3 arwydd bach i'r byrddau picnic.

awaited:
6 'No Dogs' signs
1 sign for the storage shed
3 small signs for the picnic tables.

44.4 Banc Poteli Arfaethedig yn Llansantffraed

Nodwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi gallu trefnu ymweliad o'r safle gan y gyrrwr hyd yn hyn.

44.4 Proposed Bottle Bank at Llansantffraed

It was noted that the County Council had not able to arrange a visit to the site by the driver to date.

44.5 Gât y Maes Chwarae

Dywedodd y Cynghorydd Morgan ei fod dal angen trwsio'r gât.

44.5 Play Area Gate

Councillor Morgan indicated that he still needed to repair the gate.

44.6 Llwybr Troed Brynadsain

Cytunwyd gofyn i Dafydd Phillips osod graean ar y llwybr hwn.

44.6 Brynadsain Footpath

It was agreed to request Dafydd Phillips to place hardcore on this path.

44.7 Hysbysfwrdd / Meinciau

Cytunwyd holi'r Cynghorydd Gerallt Lewis os oedd yna ddatblygiadau ar y cais i dîm Rhydian Wilson i drin y meinciau a'r hysbysfwrdd.

44.7 Notice Board / Benches

It was agreed to ask Councillor Lewis whether there were any developments with regard to the request made to Rhydian Wilson's team to treat the benches and notice board.

45 Y Chalet

Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd y Cyngor wedi ystyried y cynlluniau a baratowyd gan y Cynghorydd Dafydd Edwards ar gyfer cysgodfa i'w godi yn lle'r chalet presennol. Nodwyd nad oedd cynrychiolwyr Pwyllgor 'Save Llanon's Historic Landmark' wedi gallu fod yn bresennol yn y cyfarfod heno.

Dywedodd y clerc nad oedd unrhyw adnoddau wedi'u cynnwys yng nghyllideb eleni ar gyfer y mater hwn ac amlinellodd yr arian oedd ar gael yn yr arian wrth gefn eleni.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwahodd y cynrychiolwyr i ddod i'r cyfarfod nesaf ac i drafod y mater yn bellach yn dilyn y drafodaeth hwnnw.

45 The Chalet

Prior to the start of the meeting, the Council had considered the plans prepared by Councillor Dafydd Edwards for a shelter to replace the existing chalet. It was noted that representatives of the 'Save Llanon's Historic Landmark' Committee were unable to attend tonight's meeting.

The Clerk advised that no resources had been provided in this year's budget for this matter and outlined the money available in the current year's reserves.

Following discussion, it was **RESOLVED** to invite the representatives to attend the next meeting and to consider the matter further after that discussion.

46 Cyrtiau Tennis

Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir nawr wedi derbyn cyllid ar gyfer bwrw 'mlaen gyda'r camau ymgynghori ar gyfer unrhyw gynllun.

46 Tennis Courts

The Clerk stated that the County Council had now received funds in order to proceed with the consultative phase of a possible scheme.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd

It was **RESOLVED** that Councillor Gerallt

Gerallt Lewis, y Clerc a Mrs Non Lavarro o'r Clwb Tennis yn cwrdd gyda Cathryn Morgan o'r Cyngor Sir er mwyn trafod y trefniadau ar gyfer y digwyddiad ymgynghori.

Lewis, the Clerk and Mrs Non Lavarro of the Tennis Club meet with Cathryn Morgan of the County Council in order to discuss arrangements for the consultation event.

47 Eiddo – Adroddiad yr Arolygiad

Adroddodd y Cynghorydd Dennis Morgan nad oedd yna broblemau heblaw'r angen i chwynnu'r cyrtiau tenis.

47 Property - Inspection Report

Councillor Dennis Morgan reported that there were no problems other than the need to weed the tennis courts.

48 Cyllid

PENDERFYNWYD:

- i) talu anfoneb David Jones & Co. (Archwilydd) yn y swm o £70; a
- ii) cyfrannu £200 tuag at Gronfa Deffibrilydd Nebo.

48 Finance

It was **RESOLVED:**

- i) to pay the invoice received from David Jones & Co. (Auditor) in the sum of £70; and
- ii) to contribute £200 to the Nebo Defibrillator Fund.

49 Materion Cynllunio

Rhodddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A160600 Sunny Mount, Llanon. Cadw sied.

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.

49 Planning Matters

Consideration was given to planning application A160600 Sunny Mount, Llanon. Retention of shed.

DECISION: No objection.

50 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 6ed Medi 2016

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y.h.

50 Conclusion and Date of Next Meeting – 6th September 2016

The meeting concluded at 9.00 p.m.